CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL
COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD 08.04.24 am 7.00pm trwy Zoom. Gwalchmai MINUTES OF MEETING HELD ON 08.04.24 at 7.00pm via Zoom

	PRESENNOL: Cynghorwyr S Jones, C Summers, O Williams, R Jones, H N Evans, A Williams, E L Jones, D Roberts, G Owen (Clerc). Hefyd 1 aelod o'r cyhoedd Mr R Jones	**PRESENT**: Cllrs S Jones, C Summers, O Williams, R Jones, H N Evans, A Williams, E L Jones, D Roberts, G Owen (Clerk). Also 1 member of the public Mr R Jones
1	**Croeso ac ymddiheuriadau** – Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd S Jones bawb i'r cyfarfod gan gynnwys y Clerc yn dilyn ei salwch. Cafwyd un ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd D Fowlie.	**Welcome and apologies** - The Chairman Cllr S Jones welcomed everyone to the meeting including the Clerk following his illness. There was one apology for absence from Cllr D Fowlie.
2	**Datgan Diddordeb** - Dim	**Declarations of Interest** – None
3	**Derbyn cofnodion y cyfarfod misol diwethaf** – Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 05.02.24 fel rhai cywir. Cyng O Williams yn cynnig a'r Cyng H N Evans yn eilio.	**Acceptance of minutes of last monthly meeting** – The minutes of the meeting of 05.02.24 were accepted as a true record. Cllr O Williams proposing and Cllr H N Evans seconding.
4	**Materion yn codi o'r cofnodion**	**Matters arising from the minutes**
4.1	**Prydles Cae Chwarae** – Mae'r Clerc wedi siarad gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â hyn yn y dyddiau diwethaf. Maent yn mynd i baratoi prydles newydd ac is-brydles.	**Lease of Playing** The Clerk has spoken to the County Council regarding this in the last few days. They are going to prepare a new lease and a sub lease.
4.2	**Mynwent St Morhaiarn** – Cynigiodd y Cyng O Williams gael manylion cyswllt arbenigwr amgylcheddol a'u hanfon ymlaen at y Clerc.	**St Morhaiarn Cemetery** – Cllr O Williams offered to get contact details for an environmental specialist and forward to the Clerk.
4.3	**Arwyddion Gwiwerod** – Cytunwyd i dynnu'r eitem hon oddi ar yr agenda.	**Squirrel signs** – It was agreed to remove this item from the agenda.
4.4	**Bragdy – Newhaven** - Mae'r Cyngor Sir yn dal i aros am grant gan Lywodraeth Cymru i wneud y gwaith. Cytunwyd i adolygu'r mater. Cynigiodd y Cyng H N Evans gysylltu â'r Cyngor Sir am ddiweddariad.	**Bragdy – Newhaven** – The County Council are still waiting for a grant from the Welsh Government to do the work. It was agreed to review the matter. Cllr H N Evans offered to contact the County Council for an update.
4.5	**Llifogydd Gwalchmai** - Cynigiodd y Cyng H N Evans fynd ar ôl y mater gyda'r Cyngor Sir a Dŵr Cymru	**Floods Gwalchmai** - Cllr H N Evans offered to chase up the matter with the County Council and Dwr Cymru
	Llofnod Cadeirydd Dyddiad 13.05.24	Signature Chairman Date 13.05.24

4.6	**Lorïau'n Goryrru** – Mae'r Cynghorydd H N Evans wedi derbyn rhagor o gwynion ynghylch lorïau'n goryrru yng Ngwalchmai. Dywedodd y bydd y Cyngor Sir yn gosod arwydd ar Stad Ddiwydiannol Mona yn cyfarwyddo lorïau i droi i'r chwith wrth adael a theithio i'r A55. Bydd swyddogion y Cyngor Sir yn codi cyflymder a chyfeiriad eto gyda'r cwmnïau. Mae lorïau ailgylchu hefyd yn goryrru yng Ngwalchmai. Bydd hyn yn cael ei gyfeirio at y Cyngor Sir. Gan Bwyll parhau i fonitro'r broblem.	**Speeding Lorries** – Cllr H N Evans has received further complaints regarding lorries exceeding the speed at Gwalchmai. He said that the County Council will place a sign at Mona Industrial Estate instructing lorries to turn left when leaving and travel to the A55. County Council officials will raise speeding and direction of travel again with the companies. Recycling lorries are also speeding at Gwalchmai. This will be referred to the County Council. Go Safe continue to monitor the problem.
4.7	**Arriva** - Mae'r Clerc wedi derbyn cadarnhad gan Gwynfor Coaches bod y gwasanaeth yn dal i weithredu yng Ngwalchmai Uchaf.	**Arriva** – The Clerk has received confirmation from Gwynfor Coaches that the service still operates at Upper Gwalchmai.
4.8	**Ysbwriel -** Mae'r sbwriel yn dal i fodoli ger y maes Pêl-droed. Mae'r Clerc yn aros am ddiweddariad gan y Cyng D Fowlie.	**Litter** – The litter still exists near the Football ground. The Clerk is waiting for an update from Cllr D Fowlie.
4.9	**Arriva (gwasanaethau A5)** - Mae'r Clerc yn aros am ddiweddariad gan y Cyngor Sir	**Arriva (services A5)** – The Clerk is waiting for an update from the County Council
4.10	**Llinellau melyn** – bydd Cyng H N Evans yn gofyn am ddiweddariad gan y Cyngor Sir.	**Yellow lines** – Cllr H N Evans will request an update from the County Council.
4.11	**Chwarel Cae'r Glaw** – Mae'r Clerc wedi derbyn gohebiaeth yn gofyn faint o gynghorwyr fydd yn mynychu a pha ddiwrnod sydd orau iddyn nhw. Bydd y Clerc yn ymateb gan ddweud bydd tua 6 chynghorydd a phrynhawn dydd Iau neu ddydd Gwener sydd orau.	**Cae'r Glaw Quarry** – The Clerk has received communication asking how many councillors will be attending and which day is best for them. The Clerk will respond stating there will be around 6 councillors and Thursday or Friday afternoons is best.
4.12	**Gwyriad llwybr troed** – (Llwybr 14). Dywedodd y Clerc fod y Cyngor Sir wedi cydnabod barn y Cyngor Cymuned.	**Footpath diversion** – (Path 14). The Clerk stated that the County Council has acknowledged the views of the Community Council.
4.13	**Ymddygiad gwrthgymdeithasol –** Mae yr Heddlu wedi siarad â thua 9 o blant. Gobeithio bod y mater bellach wedi ei ddatrys. Os oes unrhyw ddigwyddiadau pellach, dylid eu hadrodd i'r Heddlu**.**	**Antisocial behaviour** – It is understood that the Police have spoken to around 9 children. Hopefully the matter has now been resolved. If there are any further incidents, they should be reported to the Police.
	Llofnod Cadeirydd Dyddiad 13.05.24	Signature Chairman Date 13.05.24

	Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn	**Correspondence Anglesey County Council**
	Cynllunio	**Planning**
5.1	FPL/2024/6 Cais llawn ar gyfer dymchwel garej dwbl presennol a chodi anecs newydd, ynghyd a estyniad i'r cwrtil yn Boderw, Gwalchmai – dim sylwadau	FPL/2024/6 Full application for the demolition of existing double garage and erection of a new annexe, together with an extension to the curtilage at Boderw, Gwalchmai – no comments
5.2	HHP/2024/36 Cais llawn ar gyfer addasu ag ehangu yr adeilad allanol presennol i greu garej ac anecs yn Clegir Farm, Gwalchmai – dim sylwadau	HHP/2024/36 Full application for alterations and extensions to the existing outbuilding to create a new garage and annexe at Clegir Farm, Gwalchmai – no comments
5.3	FPL/2024/28 Cais llawn I leoli dau gynhwysydd I'w defnyddio fel hwb ymunedol yn Chwarae Gwalchmai / Gwalchmai Playground, Maes Meurig, Gwalchmai – dim sylwadau	FPL/2024/28 Full application for the siting of two containers to be used as a community hub at Maes Chwarae Gwalchmai / Gwalchmai Playground, Maes Meurig, Gwalchmai – no comments
5.4	FPL/2024/65 Cais ôl-weithredol ar gyfer creu lagoon slyri ar dir ger Bryn Cwr, Gwalchmai - Mae gan aelodau bryderon ynghylch y cais hwn. Bydd y Cynghorydd H N Evans yn "galw'r cais i mewn" ac yn gofyn am gyfarfod safle. Bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir am fwy o amser.	FPL/2024/65 Retrospective application for the construction of a slurry lagoon on land near Bryn Cwr, Gwalchmai - Members have concerns regarding this application. Cllr H N Evans will "call in" the application and request a site meeting. The Clerk will ask the County Council for more time.
	Priffyrdd	**Highways**
5.5	Enwi strydoedd – Tir ger Frondeg, Gwalchmai - Mae angen i'r datblygwr gofrestru enw'r datblygiad yn swyddogol. Gofynnir i aelodau ddewis enw ar gyfer y safle. Cytunodd yr aelodau ar Chwaral Goch.	Street naming – Land adjacent to Frondeg, Gwalchmai - The developer needs to officially register the name of the development. Members are asked to select a name for the site. Members agreed on Chwaral Goch.
6	**Gohebiaeth Arall**	**Other Correspondence**
6.1	Chwarel Cae'r Glaw – gweler 4.11	Cae'r Glaw Quarry – see 4.11
6.2	Grŵp Gwarchod Gwalchmai – Cais cynllunio FPL/2022/256 Stryd y Goron, Gwalchmai. Mae Grŵp Gwarchod Gwalchmai wedi anfon gwrthwynebiadau i Gynllunio Cymru mewn perthynas â'r apêl yn erbyn y cais uchod. Llofnod Cadeirydd Dyddiad 13.05.24	Grwp Gwarchod Gwalchmai – Planning application FPL/2022/256 Stryd y Goron , Gwalchmai. Grwp Gwarchod Gwalchmai have sent objections to Wales Planning in respect of the appeal against the above application. Signature Chairman Date 13.05.24

	Maent wedi gwneud rhai pwyntiau pwysig a dilys iawn a fyddai hefyd yn ddefnyddiol wrth ystyried ceisiadau eraill. Mae Cymdeithas yr Iaith hefyd wedi cefnogi eu sylwadau. Cytunwyd bod y Clerc yn diolch i Grŵp Gwarchod Gwalchmai a Cylch yr Iaith.	They have made some very important and valid points which would also be useful when considering other applications. Cymdeithas yr Iaith have also supported their comments. It was agreed that the Clerk thank Grwp Gwarchod Gwalchmai and Cylch yr Iaith.
6.3	Parc Diwydiannol Mona – gweler 4.6	Mona Industrial Park – see 4.6
7	**Materion Eraill**	**Other Matters**
7.1	Ymddygiad gwrthgymdeithasol - gweler 4.13	Anti Social behaviour- see 4.13
7.2	Lampau ger Castell – Llawer angen trwsio. Bydd y Cyng H N Evans yn cyfeirio'r mater at y Cyngor Sir.	Lamps near Castell – Several need repair. Cllr H N Evans will refer the matter to the County Council.
7.3	Afon felin – Deellir bod y culfert yn Afon Felin wedi ei gau. Bydd y Clerc yn cyfeirio'r mater at y Cyngor Sir.	Afon felin – It is understood that the culvert at Afon Felin is blocked. The Clerk will refer the matter to the County Council.
7.4	Diolchodd y Cyng H N Evans i'r Cyng O Williams am siarad ar ran y Cyngor Cymuned mewn cyfarfod cynllunio diweddar.	Cllr H N Evans thanked Cllr O Williams for speaking on behalf of the Community Council at a recent planning meeting.
8	**Materion ariannol**	**Financial Matters**
	Cytunwyd i dalu	It was agreed to pay
8.1	Anfonebau Geiriau Gwyn 2617 £144.00, 2633 £144.00, 2648 £144.00, 2663 £223.20	Geiriau Gwyn Invoices 2617 £144.00, 2633 £144.00, 2648 £144.00, 2663 £223.20
9	**Materion ar gyfer y cyfarfod nesaf**	**Matters for the next meeting**
	Dim	None
	Llofnod Cadeirydd Dyddiad 13.05.24	Signature Chairman Date 13.05.24